**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-KS-3471-17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lynne.neagle@cynulliad.cymru

02 Tachwedd 2017

Annwyl Lynne

Yn dilyn eich gohebiaeth ddyddiedig 3 Hydref, a'm llythyr ym mis Gorffennaf eleni, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y camau sydd wedi'u cymryd i dawelu'ch pryderon ynghylch teithio gan ddysgwyr.

Yn fy ymateb blaenorol, dywedais y byddai fy swyddogion yn cynnal arolwg o awdurdodau lleol dros yr haf i fonitro'r ffordd y maent yn asesu risgiau llwybrau cerdded i'r ysgol. Mae'r arolwg bellach wedi'i gwblhau ac rwy'n atodi, er gwybodaeth, adroddiad cryno ar ymatebion yr awdurdodau lleol.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, mae angen ichi nodi bod gohebiaeth am dri llwybr cerdded wedi dod i law Llywodraeth Cymru. Yn achos dau ohonynt, ysgrifennais at yr awdurdod lleol perthnasol a aeth i'r afael â'r materion a godwyd. O ran y trydydd achos, ysgrifennais at yr awdurdod lleol, heb lwyddiant, a chyfeiriwyd y mater at yr Ombwdsmon.

Roedd eich llythyr diweddaraf yn gofyn am yr adolygiad o ganllawiau ar gyfer teithio gan ddysgwyr yn 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad bras yn dilyn ymholiad am derminoleg ar ôl i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nodi anghysondebau. Cafodd mân newidiadau eu gwneud i sicrhau eglurdeb a chysondeb. Nid oedd y newidiadau yn ymwneud â'r asesiadau risg ar gyfer llwybrau cerdded i'r ysgol.

Fe wnaethoch chi ofyn hefyd am adolygiad o'r canllawiau yng ngoleuni Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Bydd angen adolygu a diwygio'r canllawiau maes o law er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r system statudol newydd ar gyfer rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a gyflwynir gan y Bil. Wrth gynnal yr adolygiad, bydd swyddogion yn ystyried a oes angen cryfhau unrhyw agwedd ar y canllawiau mewn perthynas â'r dysgwyr hyn. Bydd yr adolygiad hefyd yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gan y canllawiau ar gyfer teithio gan ddysgwyr, a chan y Cod newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn gyson.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n dal i ymrwymo i sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel wrth deithio. Nid yw hyn yn ymwneud â diogelwch y llwybrau y maent yn cymryd i’r ysgol yn unig. Bydd teithio egnïol yn cael ei hybu hefyd er iechyd a llesiant hir dymor dysgwyr.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

**Dadansoddiad o Asesiadau Risg Awdurdodau Lleol o Ffyrdd a Gerddir i'r Ysgol – Ymatebion**

## Rhagymadrodd

Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith ym mis Gorffennaf 2017 ynglŷn â theithio gan ddysgwyr, gan gyfeirio’n benodol at yr asesiadau risg a gynhelir ar ffyrdd a gerddir i'r ysgol. Anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet ymateb, gan fynd i'r afael â nifer o bryderon y Pwyllgor ac ymrwymo i gynnal arolwg ymhlith yr awdurdodau lleol i asesu'r gwaith y maent yn ei wneud i gynnal asesiadau risg ar ffyrdd a gerddir i'r ysgol.

## Y cefndir

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio pob dysgwr tan iddynt gyrraedd 19 oed. Rhaid i'r awdurdodau lleol ddarparu cludiant yn rhad ac am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol statudol (5-16 mlwydd oed) ar sail meini prawf sy'n ymwneud ag oedran, pellter a doniau. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i asesu natur y ffyrdd y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r plentyn eu dilyn i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant (a. 2(4) (e)). Mae'r rheoliadau (a. 3(8)) yn datgan bod ffordd ar gael os yw'n ddiogel i blentyn (heb anabledd neu anhawster dysgu) gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu gyda hebryngwr, pe byddai oed y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr.

Os gwelir nad yw trefniadau teithio yn addas ar gyfer dysgwr, er enghraifft, os gwelir nad yw ffordd a gerddir yn ddiogel, ei bod yn peri lefelau afresymol o straen i'r plentyn, neu'n cymryd amser afresymol o hir, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn mynychu ei fan addysg perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau anstatudol i'r awdurdodau lleol i’w helpu i ymgymryd â'u dyletswyddau. Rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r canllawiau hynny. Cafodd canllawiau ar gynnal asesiadau risg o ffyrdd a gerddir i'r ysgol eu datblygu ar gyfer awdurdodau lleol yn y gorffennol gan Road Safety GB ac roeddent yn seiliedig ar ystyriaethau ffisegol a daearyddol ac ar ystyriaethau'n ymwneud â thraffig. Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus yn 2014, newidiwyd y canllawiau yng Nghymru fel eu bod yn cynnwys peryglon cymdeithasol.

Cafodd y canllawiau ar y weithdrefn newydd ar gyfer asesu risg ffyrdd a gerddir i'r ysgol eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014 yn y fersiwn ddiwygiedig o Teithio gan Ddysgwyr − Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.

Gweler y ddolen:
[http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/?skip=1&lang=cy)

Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu a ddylid cynnal asesiad risg ar ffordd a gerddir i'r ysgol, a phryd y dylid gwneud hynny. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, er enghraifft:

- Pryd oedd y tro diwethaf i'r ffordd gael ei hasesu
- Damwain neu ddigwyddiad tebyg yn ddiweddar
- Ystadegau'n dangos bod nifer mawr o ddamweiniau
- Agor neu gau ysgolion
- Newidiadau i'r ffordd – gwaith ffordd, newidiadau i seilwaith
- Newidiadau o ran y math o draffig a maint y traffig, gan gynnwys beicwyr
- Newidiadau sydd wedi effeithiol ar y ffordd – adeiladau newydd/datblygiadau tai, prosiectau adeiladu ar raddfa fawr

**Methodoleg**

Ysgrifennodd y Gweinidog at arweinwyr pob un o'r awdurdodau lleol (ar 8 Rhagfyr 2014) ynglŷn â'r canllawiau diwygiedig ar deithio gan ddysgwyr ac asesiadau risg o ffyrdd a gerddir i'r ysgol. Roedd y llythyr yn cynnwys manylion y weithdrefn fonitro arfaethedig ar gyfer cynnal asesiadau risg ar ffyrdd a gerddir i'r ysgol. Ers hynny, anfonwyd holiaduron (gweler Atodiad A) at gydgysylltwyr teithio'r awdurdodau lleol, gan ofyn iddynt eu llenwi ond, ar y cyfan, roedd angen eu hatgoffa nifer o weithiau cyn cael ymatebion. Cafodd yr holiadur diweddaraf ei anfon at yr awdurdodau lleol ar 21 Awst 2017.

**Dadansoddiad**

Llenwodd 16 o awdurdodau lleol yr holiaduron a'u hanfon yn ôl erbyn 15 Medi 2017. Ni wnaeth chwe awdurdod lleol ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Cafodd tri arolwg monitro arall eu cynnal rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Gorffennaf 2016. Mae'r manylion i'w gweld isod, gan gynnwys yr amrywiadau o ran faint o'r awdurdodau a ymatebodd i'r cais.

| Manylion yr Ymarferion Monitro | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod yr Ymarfer | Nifer yr Ymatebion | Asesiadau Risg a Gynhaliwyd | Dim Ymateb |
| Medi 2014 – Gorffennaf 2015 | 22 | 258 | 7 |
| Gorffennaf – Rhagfyr 2015 | 16 | 161 | 3 |
| Ionawr – Mehefin 2016 | 13 | 52 | 5 |
| Ionawr – Mehefin 2017 | 16 | 91 | 2 |

Cafodd yr ymarfer cyntaf, a esgorodd ar y nifer uchaf o ymatebion i'r holiadur ac ar y nifer uchaf o asesiadau risg, ei gynnal ar ôl i'r canllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi. Yr ymarfer hwnnw hefyd oedd yn rhychwantu'r cyfnod amser hiraf. Cynhaliwyd yr ail ymarfer dros chwe mis cyntaf y flwyddyn academaidd. Cafodd y ddau ymarfer diwethaf eu cynnal yn ystod ail hanner y flwyddyn academaidd. Gallai hynny esbonio pam y cynhaliwyd llai o asesiadau risg.

Mae'r dadansoddiad isod yn rhoi golwg gyffredinol ar sut y cafodd y weithdrefn ei defnyddio rhwng 1 Ionawr 2017 a 30 Mehefin 2017.

**Cwestiwn 1(a): Faint o lwybrau a gerddir i'r ysgol sydd wedi'u hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Mehefin 2016?**

- O'r 16 o ymatebion a ddaeth i law, cynhaliwyd 91 o asesiadau risg.
- Cafodd mwyafrif yr asesiadau risg eu cynnal gan dri awdurdod lleol: Sir Gaerfyrddin, Conwy a Merthyr Tudful.
- Ers i'r canllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi yn 2014, mae tri awdurdod lleol wedi dweud nad ydynt wedi cynnal unrhyw asesiadau risg: Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion a Wrecsam.
- Ers 2014, mae pum awdurdod lleol wedi dweud eu bod wedi cynnal nifer uchel o asesiadau risg (40-136): Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Casnewydd.
- Yn ystod yr un cyfnod, mae pob un o'r 14 awdurdod lleol sy'n weddill wedi cynnal rhwng 1 ac 21 o asesiadau risg yn eu hardaloedd.

**Cwestiwn 2: A gafodd unrhyw lwybrau eu hasesu fwy nag unwaith yn y cyfnod yma?**

- Dim ond dau awdurdod lleol a wnaeth ailgynnal asesiad risg, y ddau ar gais rhiant ac un hefyd oherwydd gwaith ffordd hirdymor.

**Cwestiwn 3: Beth oedd y broblem benodol a arweiniodd at yr asesiadau risg (ffisegol, amgylcheddol, cymdeithasol, topograffig neu ddaearyddol)?**

- Cynhaliwyd yr asesiadau risg o ganlyniad i amrywiaeth o'r ffactorau a restrir uchod.
- Roedd un awdurdod lleol yn mynd ati mewn ffordd systematig i ailedrych ar ffyrdd a gerddir ac yn gwneud hynny hefyd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.
- Roedd dau awdurdod lleol yn mesur pellterau cerdded.
- Roedd un awdurdod lleol hefyd yn ystyried ystadegau am ddamweiniau a nifer y cerddwyr.

**Cwestiwn 4: Pa asiantaethau eraill fuoch chi mewn cysylltiad â hwy?**

- Roedd pob un o'r awdurdodau lleol a gynhaliodd asesiadau risg yn cydweithio ag asiantaethau eraill (yr Heddlu; Byrddau Diogelu Plant; yr ysgolion perthnasol; gwasanaethau'r awdurdod lleol (Addysg, Iechyd a Diogelwch, Unedau Diogelwch ar y Ffyrdd, Cynllunio, Traffig a pheirianwyr trafnidiaeth).

**Cwestiwn 5: A ymgynghorwyd â dysgwyr yn ystod y cyfnod yma?**

- Roedd naw awdurdod lleol wedi ymgynghori â dysgwyr: Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.
- Nid oedd pum awdurdod lleol wedi ymgynghori â dysgwyr: Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Thorfaen.

**Cwestiwn 6: Sut cysylltwyd â'r dysgwyr cynradd, uwchradd neu fyfyrwyr colegau (C) yr ymgynghorwyd â hwy?**

- Defnyddiodd saith awdurdod lleol drafodaethau anffurfiol, gan ddefnyddio swyddogion diogelwch ar y ffyrdd yn aml.
- Ymgynghorodd pump ohonynt yn ysgrifenedig, gydag un yn defnyddio ffurflen.
- Darparodd un flwch ar gyfer ymatebion.

**Cwestiwn 7: A oes gennych dystiolaeth o'ch cysylltiad â dysgwyr?**

- Cadwodd saith awdurdod lleol gofnodion o'r cysylltiadau rhyngddynt a dysgwyr.

**Cwestiwn 8: A ymgynghorwyd â rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod yma?**

- Ymgynghorodd chwe awdurdod lleol â rhieni/gofalwyr.

**Cwestiwn 9: Sut wnaethoch chi sicrhau bod yr asesiadau risg ar gael i'r cyhoedd?**

- Roedd un ar ddeg o awdurdodau lleol yn darparu'r adroddiadau ar ôl cael cais i'r perwyl hwnnw.
- Roedd chwech ohonynt yn anfon yr adroddiad at rieni. Cafodd un o'r rhain ei anfon i'r ysgol hefyd ac un at gynghorydd.
- Dim ond un awdurdod lleol drefnodd fod yr wybodaeth ar gael drwy wefan.

**Casgliadau**

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal asesiadau risg ar ffyrdd a gerddir i'r ysgol yn statudol, ac nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau lleol i roi data i Lywodraeth Cymru ar yr asesiadau risg y maent yn eu cynnal. O'r herwydd, nid yw pob awdurdod lleol wedi ymateb i'r ceisiadau am wybodaeth. Mae hynny'n golygu nad yw’r data'n gyflawn.

O edrych ar y data a ddaeth i law, mae'n amlwg bod rhai o'r awdurdodau lleol yn mynd ati'n ddiwyd i gynnal asesiadau ond mai dim ond ychydig o asesiadau y mae eraill yn eu cynnal, os ydynt yn eu cynnal o gwbl. Yr hyn a allai fod yn rhannol gyfrifol am hynny yw mai dim ond nifer bach o ddysgwyr syn cerdded i'r ysgol yn eu hardal neu fod yr awdurdod lleol eisoes wedi cwblhau rhaglen gynhwysfawr o asesiadau risg. Mewn rhai ardaloedd, mae cyfran fawr o ddysgwyr yn cael cludiant am ddim i'r ysgol ar sail eu hoedran ac ar sail y pellter i'r ysgol addas agosaf. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n bosibl bod llai o ffyrdd a gerddir y mae angen eu hasesu.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a lleol. Mae wedi gwneud hynny'n gyson ers nifer o flynyddoedd ac ar gyfer 2017-18, er enghraifft, dyfarnwyd £12.6 miliwn er mwyn mynd ati i liniaru risgiau a nodwyd.

Mae'r cysylltiad gyda dysgwyr a rhieni, ynghyd â'r amryfal asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r prosesau asesu risg, yn rhywbeth cadarnhaol i'w nodi.

**Monitro**

Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal asesiadau risg ar ffyrdd a gerddir i'r ysgol yn statudol, ac nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu data i Lywodraeth Cymru ar yr asesiadau risg y maent yn eu cynnal. Wedi dweud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r broses drwy fynd ati'n flynyddol i fonitro Asesiadau Risg Awdurdodau Lleol o Ffyrdd a Gerddir i'r Ysgol.

# ASESU RISG LLWYBRAU CERDDED I'R YSGOL - FFURFLEN FONITRO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| Ffurflen Asesu Risg | |
|---|---|
| Awdurdod Lleol: | **Adolygwyd gan:**<br><br>Dyddiad: |

**1.** Faint o lwybrau cerdded i'r ysgol sydd wedi'u hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2017 a 30 Mehefin 2017 ?

**2.** A gafodd unrhyw lwybrau eu hasesu fwy nag unwaith yn y cyfnod yma?

Do

Naddo

Os felly, pam?

# ASESU RISG LLWYBRAU CERDDED I'R YSGOL - FFURFLEN FONITRO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**3.** Beth oedd y broblem benodol a arweinodd at yr asesiadau risg:

- Ffisegol
- Amgylcheddol
- Cymdeithasol
- Daearyddol/ Topograffig

Rhestrwch unrhyw rai eraill:

**4.** Pa asiantaethau eraill fuoch chi mewn cysylltiad â hwy?

- **Yr Heddlu**
- Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant
- **Gwasanaethau Awdurdodau Lleol**
- Dim
- Arall

Unrhyw Sylwadau:

**5.** A ymgynghorwyd â dysgwyr yn ystod y cyfnod yma?

| Do | Naddo |
|---|---|
| | |

**6.** Sut gysylltwyd â'r dysgwyr cynradd (C), uwchradd (U) neu fyfyrwyr colegau (C) yr ymgynghorwyd â hwy? Nodwch drwy ddefnyddio C, U a C isod

| | |
|---|---|
| - Gohebiaeth Ysgrifenedig | |
| - Cyfarfodydd/Trafodaethau Anffurfiol | |
| - Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc | |
| - Ffurflen Llwybrau Cerdded i'r Ysgol | |
| - Cynghorau Ysgol | |
| - Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd | |

- Gwersi Ysgol ☐
- Cynulliadau yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ☐
- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ☐
- Cynlluniau Teithio i'r Ysgol ☐
- Blychau Sylwadau ☐
- Arall ☐

**7.** A oes gennych dystiolaeth o'ch cysylltiad â dysgwyr?

Oes ☐ Nagoes ☐

# ASESU RISG LLWYBRAU CERDDED I'R YSGOL - FFURFLEN FONITRO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**8.** A ymgynghorwyd â rhieni/gofalwyr yn ystod y cyfnod yma?

Do ☐ Naddo ☐

Os felly, sut?

**9.** Sut wnaethoch chi sicrhau bod yr asesiadau risg ar gael i'r cyhoedd? Ticiwch:

- Copi o'r asesiad risg wedi'i anfon i'r ysgol ☐
- Copi o'r asesiad risg wedi'i anfon at y rhiant ☐
- Copi o'r asesiad risg ar gael ar gais ☐
- Copi o'r asesiad risg ar gael ar-lein drwy wefan y Cyngor ☐

Arall - nodwch beth ☐